# Ordinhad 13

# Y Llys

| | |
|---|---|
| **Corff cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 17 Medi 2021 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | Dirprwy Ysgrifennydd |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 2.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Medi 2024 |

# Ordinhad 13
# Y Llys

1. Cyfansoddiad y Llys

   Bydd y canlynol yn aelodau o'r Llys:

   a. Aelodau ex-officio:

      i. Y Canghellor
      ii. Dirprwy Ganghellor
      iii. Yr Is-ganghellor;
      iv. Unrhyw Ddirprwy i'r Is-ganghellor a Dirprwy Is-gangellorion;
      v. Deoniaid Colegau
      vi. Aelodau'r Cyngor
      vii. Llywydd Undeb y Myfyrwyr
      viii. Llywydd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor

   b. Cynrychiolwyr y Gymuned

      i. Arglwydd Raglawiaid Ei Mawrhydi dros Gwynedd a Clwyd;
      ii. Aelodau'r Tŷ Cyffredin sy'n cynrychioli etholaethau Llywodraeth y DU sef Ynys Mon, Arfon, Dwyfor Meirionnydd, Aberconwy, Gorllewin Clwyd, De Clwyd, Delyn, Bro Clwyd a Wrecsam;
      iii. Aelodau'r Senedd sy'n cynrychioli etholaethau Aberconwy, Alyn a Glannau Dyfrdwy, Arfon, De Clwyd, Gorllewin Clwyd, Delyn, Dwyfor Meirionnydd, Sir Drefaldwyn, Dyffryn Clwyd, Wrecsam ac Ynys Mon;
      iv. Aelodau'r Senedd sy'n cynrychioli rhanbarthau etholiadol Gogledd Cymru;
      v. Cadeiryddion cynghorau Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Powys a Wrecsam;
      vi. Y Cyfarwyddwr a Maer Cyngor Dinas Bangor.
      vii. Cynrychiolydd o bob un o ysgolion uwchradd Gogledd Cymru;
      viii. Penaethiaid Grwp Llandrillo Menai a Choleg Cambria.
      ix. Prif Weithredwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Dysgu Powys

   c. Cynrychiolwyr Undebau Llafur

      i. Llywydd pob un o undebau llafur cydnabyddedig y campws.

   d. Cynrychiolwyr Alumni

      i. Cadeirydd ac un cynrychiolydd arall (wedi'I enwebu gan y Bwrdd) o Fwrdd Ymgynghorol Alumni y Brifysgol

   e. Cynrychiolwyr o Sector yr Heddlu a'r Trosedd

      i. Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
      ii. Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

f. <u>Cynrychiolwyr o Gyrff Diwylliannol, Addysgol, Proffesiynol a Dysgedig</u>

i. Yr Academi Brydeinig;
ii. Cymdeithas y Gyfraith;
iii. Cymdeithas Feddygol Prydain;
iv. Cyngor Cynulleidfa Cymru;
v. Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr;
vi. Y Gymdeithas Frenhinol;
vii. Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru;
viii. Cyngor Celfyddydau Cymru;
ix. Cyngor Llyfrau Cymru;
x. Eisteddfod Genedlaethol Cymru;
xi. Urdd Gobaith Cymru;
xii. Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol;
xiii. Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion;
xiv. Awdurdod S4C;
xv. Addysg Oedolion Cymru;
xvi. Y Brifysgol Agored yng Nghymru;
xvii. Chwaraeon Cymru;
xviii. Y Cyngor Prydeinig yng Nghymru;
xix. Swyddfa Comisiynydd yr Iaith Gymraeg;
xx. Cymdeithas Ddysgedig Cymru;
xxi. Cwmni Anrhydeddus Lifrai Cymru
xxii. Llywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
xxiii. Llywydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru – National Museum of Wales
xxiv. Prif Weithredwr GWe
xxv. Prif Gynghorydd Gwyddonol, Llywodraeth Cymru
xxvi. Un cynrychiolydd yr un o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Coleg Brenhinol y Meddygon, Coleg Nyrsio Brenhinol a Chymdeithas Feddygol Prydain
xxvii. Sefydliad y Cyfarwyddwyr

g. <u>Cynrychiolwyr Cyrff Diwydiannol, Masnachol ac Amaethyddol</u>

i. Cydffederasiwn Diwydiant Prydain;
ii. Ffederasiwn Busnesau Bach;
iii. Undeb y Ffermwyr yng Nghymru;
iv. Undeb y Ffermwyr Cenedlaethol;
v. Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru;
vi. Cymdeithas y Tirfeddianwyr Gwlad

2. Cyfarfod cyhoeddus yw’r Llys, ond dim ond aelodau sy’n cael pleidleisio ar unrhyw fater.

3. Telerau Aelodaeth y Llys

a. Bydd aelodau cynrychioliadol yn gadael y swydd pan fyddant yn peidio â bod yn aelodau o'r corff a'u penododd, ac eithrio mewn achosion lle nad oeddent yn aelod o'r cyfryw gorff pan wnaed y penodiad.
b. Bydd aelodau ex-officio yn aelodau o'r Llys dros gyfnod eu tymor perthnasol mewn swydd.
c. Gall aelod o'r Llys ymddiswyddo ar unrhyw adeg trwy ysgrifennu at Ysgrifennydd y Llys.
d. Rhaid i'r person neu'r corff a benododd unrhyw aelod o'r Llys y daw ei safle yn wag gymryd camau i lenwi'r swydd wag cyn gynted â phosibl.

4. Pwerau'r Llys

   a. Derbyn, cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau am adroddiadau ar waith y brifysgol;
   b. Derbyn, cynnig sylwadau a gofyn cwestiynau am y Datganiadau Ariannol Archwiliedig Blynyddol;
   c. Trafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r brifysgol a gwneud argymhellion i'r Cyngor fel y gwêl yn dda;
   d. Gweithredu fel fforwm i drafod rôl y brifysgol yn y gymuned.

5. Cyfarfodydd y Llys

   a. Bydd y Llys yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn i dderbyn gwybodaeth am waith y brifysgol.

   b. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Llys yn cynnwys:

      i. Croeso gan y Canghellor;
      ii. Adroddiad ar waith y brifysgol gan yr Is-ganghellor;
      iii. Y Cyfrifon blynyddol; a
      iv. Chyflwyniadau eraill ar weithgaredd y brifysgol.

   c. Dosberthir rhaglen cyfarfod y Llys yn Gymraeg ac yn Saesneg.

   d. Bydd gan bob aelod yr hawl, wrth annerch y Llys, i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

   e. Gall aelod o'r Llys gynnig penderfyniad i'w drafod mewn cyfarfod o’r Llys. Dylid hysbysu Ysgrifennydd y Llys o leiaf dri diwrnod cyn cyfarfod y Llys, o'r bwriad i gynnig penderfyniad o'r fath.

   f. Yn ychwanegol at yr aelodaeth a amlinellir yn yr Ordinhad hwn, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i anfon gwahoddiadau ychwanegol, fel y bo'n briodol, i unrhyw gyfarfod o'r Llys.